# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9fed Ionawr 2023

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Chris Brady, Dafydd Richard Williams, Sian Parri, Henry Huws
Ymddiheuriadau: Alan Hughes, Sioned Pearson, Catrin Williams, John Davies

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Adroddiad y Cynllun Peilot** – Cafwyd trafodaeth byr ar yr adroddiad.
   b. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Cafwyd ar ddeall y bydd angen cyflwyno Cais Cynllunio i osod yr hysbysfwrdd ar wal y Post, bydd y Clerc yn bwrw ymlaen hefo hyn.
   c. **Tir Garnfadryn –** Bydd y Clerc yn cysylltu a John Lloyd Williams Chartered Surveyor i gael arweiniad a prisio'r tir.
   ch. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Cafwodd tri enw ei gyflwyno, bydd y Clerc yn cysylltu a'r personau a enwyd.
   d. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Doedd dim diweddarad ar y mater.
   dd. **Diffib Tudweiliog –** Daeth gwybodaeth fod y cais am Diffib wedi bod yn llwyddianus, bydd angen i'r gymuned brynu'r cabinet. Mae £300.00 eisioes wedi ei godi, bydd grwp Dolig Dweiliog yn arianu'r gweddill (tua £200.00). Tra bydd swyddogion y grwp yn trefnu'r arian, bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi'r £300.00 ym manc y Cyngor Cymuned ac yn talu am y cabinet, gyda'r bwriad o dderbyn y gweddill gan Dolig Dweiliog.

e. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Hyd yma does dim ymateb wedi ei dderbyn ynglyn a'r Archwyliad.

f. **Arwydd 40mya wrth Cyffordd am Towyn** –Cafwyd ymateb gan adran Traffig Cyngor Gwynedd yn ein gywbyddu y bydd o Medi ymlaen cyfyngiadau cyflymder newydd yn dod i rym ar strydoedd sydd wedi eu goleuo – i lawr o 30mya i 20myr. Derbynwyd gwybodaeth pellach gan y runed ar hyn hefyd. Awgrymodd y swyddog y byddai hyn yn fan cychwynnol i edrych os yw cynlluniau am yr ardal yn ymarferol ar gobaith y caiff hyn effaith positif ar y gymuned. Wedi trafodaeth penderfynwyd nad oedd hyn yn mynd i arafu traffic yn y man ple mae pryder, bydd y clerc yn cysylltu nol i ddatgan hyn ac i bwysleisio fod angen gwneud rhywbeth ar frys gan fod y gor yrry yn peryglu bywydau.

ff. **Pont ger Siop y Bont Llangwnnadl** – Ni chafwyd ymateb i ebost diwethaf y Clerc, bydd yn cysylltu eto gan ddatgan fod y difrod yn gwaethygu.

4. Gohebiaeth:

**a. Cais Cynllunio C22/1152/46/LL Muriau, Tudweiliog -** Cefnogi

**b. Cais Cynllunio C22/1167/46/LL Gwesty Lion, Tudweiliog-** Dim gwrthwynebiad i greu 3 ystafell wely, ond pryder mawr ynglyn ar effaith a gai darparu ardal eistedd ar lefel llawr cyntaf ac y tai a trigolion cyfagos.

**c. Praesept 2023/24 –** Penderfynwyd cadw'r praesept yr un fath y llynedd - £7000.00

**ch.Cronfa Cofid Ty Doctor Nefyn –** Derbynwyd £678.55 yn ol i fanc y Cyngor Cymuned.

**d. Ambiwlans Awyr –** Daeth cais gan Cyngor Tref Pwllheli i'w cefnogi yn eu hymgyrch i wrthwynebu cau safle Ambiwlans Awyr Caernarfon- penderfynwyd eu cefnogi

**5. Unrhyw fater arall-**

**a.** Arwydd 'Ysgol' – Cafwyd ar ddeall fod tyfiant unwaith eto wedi tyfu ac yn cuddio'r arwydd 'ysgol' – bydd yn Clerc yn cysylltu a'r adran priffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 13eg Chwefror 2023 am 7.30yh